Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 28.02.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYFLE: Dathlu Dydd Gŵyl Dewi 1 Mawrth 2023 – #PrynuLleol #CaruCymruCaruBlas #PethauBychain

Mae'n Ddydd Gŵyl Dewi yfory ac mae amrywiaeth o ddeunyddiau ar gael i'ch helpu i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo'ch busnes:

- Adnoddau Prynu'n Lleol ar: https://linktr.ee/prynulleol

- Pecyn cymorth #CaruCymruCaruBlas ar: http://bit.ly/3kmJltM

- Asedau #PethauBychain ar: http://bit.ly/3H1AC5n

# YMGYRCH: Pythefnos Masnach Deg 2023

Bob blwyddyn mae Pythefnos Masnach Deg yn rhoi cyfle i bobl ledled y DU ddathlu Masnach Deg a dysgu mwy am y gwahaniaeth mae Masnach Deg yn ei wneud. Cynhelir yr ymgyrch eleni rhwng 27 Chwefror 2023 a 12 Mawrth 2023 a'r thema yw 'BWYD'. Mae mwy o wybodaeth ar:

https://masnachdeg.cymru/

# YMGYRCH: Wythnos Gweithredu ar Wastraff Bwyd 2023, 6-12 Mawrth 2023

Cynhelir Wythnos Gweithredu ar Wastraff Bwyd rhwng 6 a 12 Mawrth 2023, a gofynnir i'r diwydiant Lletygarwch a Gwasanaethau Bwyd ymuno â'r ymgyrch. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/WythnosGwastraffBwyd2023FoodWasteWeek

Mae pecyn adnoddau ar gyfer yr ymgyrch ar gael ar:

http://bit.ly/3kxOEXo

# TRETH: Cosbau TAW newydd a thaliadau llog

Mae Cyllid a Thollau EF yn atgoffa busnesau sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW i ffeilio eu ffurflenni a thalu ar amser, cyn i gosbau newydd gael eu cymhwyso – mae disgwyl i'r ffurflenni misol cyntaf a'r taliadau sy'n cael eu heffeithio gan y cosbau gael eu cyhoeddi erbyn 7 Mawrth 2023. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

http://bit.ly/3KAVdmG

## CYFLE: Stondinau Eisteddfod 2023 – archebion ar agor 1 Mawrth 2023

Bydd archebion ar gyfer stondinau yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 yn agor ar 1 Mawrth 2023 – cyfle gwych i hyrwyddo eich busnes i'r miloedd fydd yn ymweld ym mis Awst. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://eisteddfod.cymru/2023-stondinau

## YMGYNGHORIAD: Cynllun trwyddedu ar gyfer holl ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru

Bydd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar sefydlu cynllun trwyddedu statudol ar gyfer holl ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru yn cau ar 17 Mawrth 2023 – i gymryd rhan, ewch i:

https://www.llyw.cymru/cynllun-trwyddedu-statudol-i-ddarparwyr-llety-ymwelwyr-yng-nghymru

## YMGYRCH: Diwrnod Mynyddoedd Cambria 28 Chwefror 2023

Heddiw (28 Chwefror 2023) yw Diwrnod Mynyddoedd Cambrian a gallwch ddangos eich cefnogaeth drwy ddefnyddio #diwrnodmynyddoeddcambrian a #mynyddoeddcambrian yn eich cyfryngau cymdeithasol. Mae gwybodaeth am Mynyddoedd Cambrian ar gael ar:

https://www.mynyddoeddcambrian.com/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru